# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Hydref 2022

Amser: 14.00 - 14.23

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13006

# HYBRID

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i roi gwybod i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am y ddeiseb, a gofyn pa gynlluniau sydd ganddynt ar waith i edrych ar y mater fel rhan o'u blaenraglen waith, yn enwedig mewn perthynas â safonau gofal anifeiliaid.

### 2.2 P-06-1299 Dylai "Rhewi ar adeiladu ffyrdd" Llywodraeth Cymru gynnwys cymal ar gyfer achosion sy'n peri perygl i fywyd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i aros i'r ymateb i adroddiad y Panel Adolygu Ffyrdd gael ei gyhoeddi cyn penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd ynghylch y ddeiseb.

### 2.3 P-06-1300 Dylid adolygu'r penderfyniad yn caniatáu i awdurdodau lleol gynyddu premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi i 300 y cant,

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y bu cryn dipyn o waith craffu mewn pwyllgorau ac yn y Cyfarfod Llawn ar y mater. Nawr bod y rheoliadau wedi'u cytuno, mater i awdurdodau lleol bellach yw penderfynu sut i'w defnyddio. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb, i ddiolch i'r deisebydd, ac i'w annog ef a'r rhai sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon i estyn allan at eu cynrychiolwyr yn eu hawdurdodau lleol.

### 2.4 P-06-1302 Rhaid gwarchod mynyddoedd unigryw Cambria yng Nghanolbarth Cymru drwy eu dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am ddadl ar y ddeiseb, ac i argymell bod y ddadl yn cael ei chynnal cyn diwedd y flwyddyn i gyd-fynd â'r hanner can mlwyddiant.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-1106 Cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd pa mor bwysig yw hi i sicrhau yr eir i'r afael â'r heriau presennol, sy'n cyfyngu ar lais a rheolaeth unigolion.

Croesawodd yr Aelodau'r cynnig o ddiweddariad gan y Dirprwy Weinidog a chytunwyd i gadw'r ddeiseb ar agor a'i hystyried eto pan ddaw'r diweddariad i law.

### 3.2 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwrsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunwyd ei fod wedi mynd â'r mater cyn belled ag y gall fel pwyllgor a chytunodd i gau'r ddeiseb ac i ddiolch i'r deisebydd.

### 3.3 P-06-1240 Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu'n ôl at Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn nodi ei siom nad oes ymateb wedi dod i law a gofyn iddynt gyflwyno ymateb yn awr.

Croesawodd y Pwyllgor hefyd y gwaith a wnaed gan Epilepsy Action Cymru, a chytunwyd i rannu adroddiad ac argymhellion y sefydliad gyda'r Gweinidog Iechyd, a gofyn am ei hymateb i'r rhain.

### 3.4 P-06-1249 Darparu llwybr clinigol, gofal meddygol, ac arbenigwyr ar gyfer pobl â syndrom Tourette yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y ddadl a gynhaliwyd yn gynharach eleni a'r cyhoeddiad diweddar gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu rhaglen wella genedlaethol newydd ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol.

O ystyried y cyhoeddiad hwn, llongyfarchodd y Pwyllgor y deisebydd a phawb sydd wedi ymgyrchu dros wasanaethau priodol i'r rheini â syndrom Tourette yng Nghymru a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.5 P-06-1276 Ymestyn adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd pa mor falch oedd y deisebwyr o ddod â'r materion i ddadl yn y Senedd ac i gryfder teimladau'r cyhoedd a gweithwyr nyrsio proffesiynol gael ei amlygu.

O ganlyniad i'r ddadl, cytunodd y Pwyllgor ei fod wedi mynd â'r ddeiseb cyn belled ag y gall, a dymunodd yn dda i'r Coleg Nyrsio Brenhinol â'i ymgyrchoedd yn y dyfodol, a chaeodd y ddeiseb.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Blaenraglen waith

Bu’r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith.